Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID GWIRIONEDD CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 18. Rhif 2.] CHWEFROR, 1918. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Oddiar y Twr.

Hiwmor mewn Llenyddiaeth Gymraeg.—Sarnicol.

O Faes y Frwydr.—Parch. D. Cellan Evans.

Hanner Can' Pwynt dros Undodiaeth.

Marwgofion.

Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s. 6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

TALIADAU.

Parch. M.W., Belfast; Mrs. W.J.D., Lampeter; R.L., Ton Pentre; W.W., Cefncoed; W.Ll., Felinfach; J.E.E., Llundain; D.D., Gwardafolog; P.P., St. Clears; J.D., Trevine; Mrs. J., Fronfelen; Miss D., Cellan; Dr. J.D.J., Ystrad; G.T., Prendergast; D.H.S., Mountain Ash.

In The Old Meeting House Charity Schools, Dudley, there will be a Vacancy in March for a Unitarian Headmaster.—Applications to be sent to the Rev. E. Glyn Evans, Clee View, Himley Road, Dudley.

Mourning Cards . . .

Neatly executed.

A Speciality in Portrait Printing.

Samples sent on application.

J. D. LEWIS, YMOFYNYDD OFFICE, LLANDYSSUL.

YR ❀ YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth : deliwch yr hyn sydd dda."

CYFRES NEWYDD.] CHWEFROR, 1918. [CYF. XVIII. RHIF 2.

ODDIAR Y TWR.

PA bryd y derfydd y rhyfel? Da fyddai gennyf pe meddwn y reddf broffwydoliaethol a'm galluogai i roddi ateb i'r gofyniad hwn. Ond ni feddaf mo honi. Bum yn ceisio gwisgo mantell proffwyd am beth amser ar ol dechreu y rhyfel, ond ni fu dim llwyddiant ar yr ymgais. Am rhyw reswm neu gilydd, ni ddigwyddai pethau yn ol y broffwydoliaeth, gyda'r canlyniad imi ddigalonni, ac ymddiosg o'r fantell. Ac nid oes ynof un awydd i ail ddechreu.

* * *

Dechreuais fy llith gyda'r gofyniad uchod, nid yn gymaint er ei ateb ag er rhoi mynegiad i'm teimlad o lawenydd oblegid gweled o honof arwyddion fod rheswm yn dechreu—yn dechreu, sylwer—adfeddiannu ei gorsedd unwaith eto. Nid oedd gobaith am adferiad heddwch cyhyd ag y parhai'r teimladau nwydwyllt fu'n nodweddu rhan fawr o drigolion Prydain yn ystod y tair blynedd diweddaf. Yr oedd achosion digonol i'r teimladau hyn, mae'n wir—digonol, pe dim ond y creulonderau annynol y bu'r prif elyn yn euog o honynt—creulonderau a berent arswyd ym mynwes pob dyn tyner galon. Ond nid teimladau ffafriol i heddwch oedd y rhai hyn. Cyn yr adferir heddwch, rhaid edrych ar y sefyllfa yng ngoleu rheswm. A dyna pam y llawenychaf oblegid gweled o honof arwyddion fod rheswm ar gael ei hadfer i'w gorsedd unwaith eto.

* * *

Prawf o hyn yw'r mynegiadau diweddar o'n "Hamcanion" gan ein Prif Weinidog ni, ac Arlywydd yr Unol Dalaethau ddechreu y mis diweddaf. Y mae'r awyr wedi goleuo cryn dipyn wedi'r ddau anerchiad hyn. Ym mynwes llawer bodolai cryn dipyn o amheuaeth gyda golwg ar wir amcanion Prydain. Ofnid ei bod wedi colli golwg ar y ddelfryd a berodd iddi fyned i'r rhyfel ar y dechreu, a'i bod bellach a'i llygaid ar ryw ysglyfaeth neu gilydd. Diolch fod y bwgan hwn wedi cael ergyd—marwol, mi obeithiaf.

Ym mhlith yr "amcanion" hyn, da gennyf sylwi fod rhyddhau Palestina ac Armenia o hualau'r Twrc yn un. Un o ysmotiau hanes y chwarter canrif diweddaf yw'r creulonderau ddioddefwyd gan y Cristionogion Armeniaidd oddi ar law'r Tyrciaid—cannoedd o filoedd o honynt wedi eu gosod i farwolaeth mewn dulliau barbaraidd i'r eithaf. Nid yw ymddygiad Llywodraeth Lloegr mewn cysylltiad â'r ysgelerderau hyn yn gyfryw ag i ddwyn anrhydedd iddi. Eithr y mae ganddi yn awr gyfleustra i wneud iawn am ei difaterwch.

* * *

Teimladau hollol wahanol a'n meddianna—yn Iuddewon a Christionogion—mewn perthynas i Palestina—teimladau a chryn dipyn o'r hyn eilw'r Sais yn *sentiment* tu cefn iddynt. Y mae serch calon pob Iddew yn glymedig o gylch y wlad fechan hon fel gwlad eu tadau, ar diriogaeth yr hon y daeth eu cenedl i fodolaeth gyntaf. Ar ol yn agos i ddwy fil o flynyddau o alltudiaeth fe welant wawr gobaith am adferiad eu gwlad iddynt. Pwy all beidio cydymdeimlo a chyd-lawenhau â hwynt?

* * *

Mwy cydweddol â theimlad Cristionogion, hefyd, ydyw fod y wlad sydd, iddynt, uwchlaw pob gwlad, yn gysegredig, ym meddiant neu dan lywodraeth y genedl i'r hon y perthynai sylfaenydd eu crefydd, Iesu Grist. Dwedwn ni a fynnom, fe chwareua *sentiment* ran bwysig ym mywyd dyn—llawer mwy nag a feddyliwn yn aml. Dywed Matthew Arnold fod ymddygiad yn gwneud i fyny dair rhan o bedair o fywyd. A chaniatau cywirdeb y gosodiad hwn, ai nid cywir hefyd y gosodiad mai *sentiment* wna i fyny'r gweddill?

* * *

Beth yw gweddi? Awgrymwyd y gofyniad hwn imi gan y penodiad o'r Sul cyntaf o'r flwyddyn fel "dydd arbennig o weddi a diolch." Ymddengys fod yr eglwysi, o bob lliw a llun, wedi cydsynio â chais y brenin yn weddol gyffredinol. Ni ellir dweyd dim yn erbyn hyn. Da yw gweled dynion a benywod, hyd yn oed pe am awr neu ddiwrnod yn achlysurol, yn ymddiosg o'r osgo ymffrostgar, ucheldybiol a'u nodwedda mor gyffredin, ac ymwisgo "mewn sachlian a lludw"; neu, yn rhoi lle yn eu calon, am ennyd, i ysbryd gostyngedig. Ie, ysbryd gostyngedig; rhaid cael hwn, onite ni fydd y weddi a'r addoliad amgen nag "efydd yn seinio, neu symbal yn tincian."

* * *

Prin iawn, mae'n rhaid imi gyfaddef, yw'm cydymdeimlad ag arddangosiadau rhwysgfawr o'r fath hyn mewn cysylltiad â phethau mor gysegredig a gweddi ac addoliad. Dyna fu yn rhy gyffredin y Sul a enwyd—gorymdeithiau rhwysgfawr, gwasanaethau defodol rhodresgar. I'm tyb i, mae'r ysbryd gwir weddigar mewn perygl o gael ei fogi gan bethau o'r fath hyn. Nid y weddi a gwrthddrych gweddi sydd yn apelio gryfaf at y dyrfa, eithr yr arddangosiadau allanol.

* * *

Ond—beth yw gweddi? Yn rhy gyffredin, nid yw amgen na cheisio; ie, ceisio di-derfyn. Mewn un ystyr, y mae hyn yn iawn. Y mae gwir weddi yn geisio. Ond y mae gwahaniaeth rhwng ceisio a cheisio. Yn fynych—ai yn fynychaf?—nid yw gweddi amgen na chais ar i Dduw wneud yr hyn na all y gweddiwr ei hun ei wneud; neu, ar iddo wneud yr hyn y dylai (ac y gall) dyn ei hun ei wneud. Pa nifer o weddiau sydd wedi eu cyfeirio at yr orsedd ar i Dduw fod o du'r fyddin y teimlai'r gweddiwr ddiddordeb ynddi; cystal a phe dwedai—"'Rwy'n ofni na allwn ni orchfygu'r gelyn; deled Duw i frwydro drosom, fel ag i droi'r fantol o'n tu." Y mae'r awdurdodau Germanaidd wedi bod yn nodedig am weddiau o'r fath hyn. Ac nid yw'r awdurdodau Eglwysig Prydeinig ychwaith, wedi bod yn hollol rydd o'r camwri. Ie, camwri—golwg gamsyniol ar weddi. Heblaw bod yn gamsyniol, y mae gweddiau o'r natur hyn yn ddi-amcan; ac ymylant ar fod (ac y mae rhai o honynt) yn gabledd. Fe wnant Dduw, nid yn Fod Anfeidrol berffaith, fel y rhaid ei fod, ond yn Dduw bach, lleol, enwadol, mympwyol, sydd yn trigo yn rhywle yn yr eangderau awyrol, yr hwn na ddenfyn ei fendithion i neb ond i'r hwn a weddia daeraf am danynt. Dyna Dduw'r Eglwysi Cristionogol yn rhy gyffredin.

* * *

Gogwydd enaid, yn fwy o lawer na cheisio am fendithion, yw gwir weddi; neu, awydd enaid am gymundeb â'r Ysbryd anfeidrol berffaith. Y mae gweddi yn erfyniad am fendithion ysbrydol—am nerth yn y dyn oddi mewn, am arweiniad, am ysbrydoliaeth, am y ffydd a gyfyd y meddwl a'r galon uwchlaw pethau amserol a materol a diflannol. Ond o gymundeb enaid ag enaid—o gymundeb rhwng yr enaid dynol a'r enaid Dwyfol—y daw'r bendithion hyn; neu, rhaid i'r teimlad o gymundeb â'r Ysbryd Anfeidrol berffaith ragflaenu'r ceisio. Ie, Ysbryd Anfeidrol berffaith: ni ellir pwysleisio'r meddwl hwn yn ormodol. Os credu wnawn mewn Duw, peidiwn meddwl am dano fel dyn ar raddfa eang; eithr ceisiwn feddu'r syniadau goreu fedrwn am dano.

* * *

Mewn gwybodaethau ereill fe symudir ym mlaen tua gwybodaeth berffeithiach; fe wneir cynnydd o flwyddyn i flwyddyn, o ganrif i ganrif. Os y deuir o hyd i wybodaeth well, ni phetrusir i daflu'r hen ar y neilltu. Eithr mewn duwinyddiaeth—neu, wybodaeth, neu syniadaeth grefyddol—yn ol ym mhell yn y canrifoedd a fu y trigir o hyd; ac ni fynn neb symud gam ymlaen.

* * *

Prawf o'r gosodiad olaf uchod yw'r "miri mawr a'r gwaeddi" glywir tu fewn i'r gwersylloedd Eglwysig oherwydd pennodiad y Dr. Henley Henson i Esgobaeth Henffordd. Nid yw'r Esgob newydd, mae'n debyg, yn hollol iach yn y ffydd. Nid cynt yr enwyd ef fel olynydd i'r diweddar Esgob nag y deffrôdd y gwaedgwn duwinyddol,

ac y dechreuasant grio yn ei erbyn gyda'r cynddeiriogrwydd a nodwedda'r hiliogaeth hon erioed. Ymddengys i mi nad yw afiachusrwydd ffydd yr Esgob amgen na diniwed i'r eithaf. Mae'n debyg iddo ddweyd (neu ysgrifennu) rhywbeth, ychydig flynyddau yn ol, a ymddangosai fel pe'n taflu amheuaeth ar yr hyn a elwir yn gyffredin yn enedigaeth wyrthiol, yn ogystal a llawer o'r gwyrthiau briodolir i Iesu yn yr Efengylau. A oedd sail digonol i'r dybiaeth, nis gwn; ond dyna'r cyhuddiad. Rhyfedd iawn ydyw yr ystyria neb, bellach, fod yr ystoriau dychymygol hyn yn deilwng o grediniaeth. Mae'r Eglwysi yn byw, nid yn yr ugeinfed ganrif, ond ym mhell yn ol yn yr oesau a fu—nid Eglwys Loegr yn unig, ond yr eglwysi i gyd o bob desgrifiad. A ydym ni, Undodiaid, yn rhydd o'r cyhuddiad hwn?

* * *

Yr arweinydd yn yr erledigaeth o'r Dr. Henson, fel mae'n syndod meddwl, yw Esgob Rhydychen—y Dr. Gore. Pam y dylai'r ffaith hon beri syndod? Am y rheswm nad oes llawer o flynyddau er y bu efe ei hun yn wrthddrych erledigaeth ar gyfrif gwyriad mewn barn; ac yr oedd y cyhuddiad yn ei erbyn ef yn seiliedig ar wyriad barn cyffelyb i'r un y cwynir o'i blegid yn achos Dr. Henson. Dywedir mai'r herwheliwr yw'r ceidwad helwriaeth goreu. Ymddengys fel pe mai'r ceidwad goreu o'r "ffydd iawnffyddol" yw'r hwn fu ei hun yn wrthddrych drwgdybiaeth o heresi. Yr ydym yn byw mewn byd hynod, onid ydym?

* * *

Gan nad beth am iachusrwydd ffydd y Dr. Henson, y mae yn ddyn o wroldeb mawr—ie, o Esgob, yn ddyn o wroldeb eithriadol. Nid oes eisiau gwell prawf o hyn na'i addewid i fod yn bresennol ac i siarad yng Nghwrdd Croesaw y Dr. Fort Newton ar yr 17eg cynfisol, yn y City Temple. Gwir yw na ddarfu iddo gyflawni ei addewid, oherwydd "rhwystrau anorfod," yn ol pob tebyg. Ond nid peth bach, i ddyn o'i safle ef, yn enwedig yn yr argyfwng yr oedd ynddo ar y pryd, oedd iddo wneud yr addewid o gwbl.

* * *

Beth yw Cristionogaeth? Gofyniad hollol ddianghenraid ddylai hwn fod yn awr, ddechreu'r ugeinfed ganrif. Eithr nid dianghenraid mo hono, fel y gwneir yn amlwg gan yr ymdrafodaeth y cyfeirir ati uchod. Cydsyniad a'r credoau; perthyn i Eglwys iawnffyddiog, yw'r atebion roddir gan yr eglwysi. Y mae gan bob eglwys ei "Ffydd Gatholig," â'r hwn y rhaid cydsynio cyn y gall dyn fod yn Gristion. Mater o farn ac arferiad allanol, felly, yw Cristionogaeth, ac nid mater o fywyd wedi ei drefnu yn unol ag egwyddorion ac ag ysbryd bywyd Iesu.

* * *

Rhyfedd fel yr anwybyddir addysg y Blaenor ar y mater hwn. Ei addysg ef, fel ei ceir yn yr Efengylau, yn enwedig yn y Bregeth ar y Mynydd, yw Cristionogaeth, yn ol Iesu. A'r Cristion yw'r hwn sydd

yn byw yn ol ei addysg a'i esiampl. Ni sonia Iesu am "gredo" na "chyffes ffydd," nac am berthyn i eglwys iawnffyddol. Nid "dynol farn," ond purdeb; nid credo, ond bywyd.

* * *

Mewn perthynas i'r Bregeth ar y Mynydd, diddorol i mi oedd darllen, yn ddiweddar, farn gwyddonwr (y Proffeswr Bickerton, diweddar Athraw Gwyddor Ymarferol ym Mhrif Ysgol New Zealand) arni. Dywed fod "gair diweddaf gwyddor mewn llwyr gytundeb â'r Bregeth ar y Mynydd," yn yr hon y dysgir (medd efe) egwyddorion gwir gymdeithaseg, ac egwyddorion gwir wleidiadaeth. Y mae'r Bregeth ar y Mynydd wedi bod yn y cysgod yn ddigon hir. Efallai fod ei dydd yn awr ar wawrio. Hi yw breinlen Cristionogaeth Iesu. Fe ddaw'r adeg, "ryw ddydd ym mhell," pan fydd y freinlen wedi ei throi yn fywyd. Ond nid yw'r amser hwn eto.

Sylwedydd.

HIWMOR MEWN LLENYDDIAETH GYMRAEG.

Gan Sarnicol.

PENNOD I.

Y Ddawn i Chwerthin.

Y mae rhywun wedi deffinio dyn fel "creadur sy'n chwerthin"; gellid gyda'r un priodoldeb ei ddeffinio fel "creadur y chwerddir ar ei ben," gan na chwerddir am ddim arall, byw na marw, ond fel y mae yn ein hadgofio am rywbeth dynol.

Nid priodol yma yw ceisio treiddio i ddyfnderoedd athroniaeth y pwnc, hyd yn oed pe bai hynny o fewn ein gallu; ond rhaid sylwi ar un peth y cytuna meddylegwyr y dydd arno, sef fod chwerthin yn gydfynedol, fel rheol, ag absenoldeb teimlad. Wrth gwrs, nid yw hyn yn golygu nad oes teimlad yn perthyn i'r chwerthingar, ond eu bod yn meddu rheolaeth berffaith arno, ac yn medru, pan ddewisant, ei roddi i lawr yn hollol. Yn wir, dywed Bergson, na "fedrai eneidiau'n meddu teimladaeth uchel, mewn cydgord ac undeb a bywyd, yn y rhai y mae pob digwyddiad yn parhau ac yn adseinio drwy ddyfnder eu calonau, byth wybod na deall dim am chwerthin." Eto, dywed: "Y mae popeth *comic* yn gofyn di-deimladu'r galon am y foment; mae'r apêl at y deall, a dim ond hynny." Y mae hyn yn awgrymiadol iawn pan gofiwn natur *sentimental* y Cymro, ac efallai'n esboniad ar y ffaith, fod cyn lleied o hiwmor i'w ddarganfod mewn rhannau helaeth o'n llên, ac yng nghymeriad math ar gydwladwr sydd yn caniatau i'w galon lywodraethu yn ormodol ar daleithiau ei dealltwriaeth.

Ar y cyntaf, temtir ni i seilio haeriadau rhy ysgubol ar y ffaith nad oes air Cymraeg boddhaol am *humour*; ond pan gofiwn am eiriau fel arabedd, ffraethineb, cellwair, digrifwch, pertrwydd, &c., yn eu hystyr ar dafodleferydd ym mysg y werin, ar lwyfan ac mewn pwlpud heddyw—nid yn yr ystyr y defnyddir hwy yn arddull ganol-oesol ein beirdd—gwelwn ar unwaith fod gennym ddigon o foddion i fynegi agwedd chwerthingar ein bywyd. Onid diweddar iawn yw datblygiad geiriau fel *humour* a *wit* i'r hyn fynegant i feddwl y Sais heddyw?

Ffolineb o'r mwyaf ynte fuasai casglu nad oes fawr hiwmor yng Nghymru am ein bod yn benthyca gair Saesneg i sefyll am y peth.

Yn y tudalennau a ganlyn defnyddir geiriau fel arabedd, ffraethineb, digrifwch, yn eu hystyr byw ar lafar gwlad heddyw; felly ni bydd angen croesi'r clawdd mor aml i fenthyca ar ein cymydogion.

Er a ddwêd ambell i Sais na ddeall iaith na bywyd Cymru, yr ydym fel cenedl yn meddu y ddawn o chwerthin, fel y gweddill o'r tylwythau Celtaidd. Yr ydym yn naturiol droi at ochr ddigrif pethau, er cymaint ein teimladaeth; yn wir, mae'n bosibl mae trai a llanw y galon yw chwerthin a difrifwch, yn ganlyniadau angenrheidiol y naill i'r llall. Ni all teimladaeth fod bob amser ar ei huchafbwynt, o leiaf, mewn dynion cyffredin. Ym mha le y ceir mwy o ddigrifwch nag mewn Eisteddfod? Onid yw'r ateb a'r gwrthateb o'r llawr i'r llwyfan yn fflachio fel mellt ar ddiwrnod mawr yr Wyl? Pwy fu erioed mewn cyfarfod llenyddol cyffredin heb glywed rhywbeth i adgyfodi gwên ymhen llawer o ddyddiau. Ar yr aelwyd, ar yr heol, mewn ffair a marchnad, yn y trên ac yn y gwaith, ie, yn y cwrdd mawr a'r gymanfa, mŷn yspryd nwyfus a ffraeth y Cymro fflachio allan, a hynny'n aml, fel heulwen Ebrill, drwy ganol cymylau wylofus.

Troer yn ol i dudalennau hynaf ein llên, a chawn Aneurin yn canu am "y gwŷr ffraeth" a aeth i frwydr Catraeth. A dywed un o'r hen Drioedd mai y tri pheth hynod ar Gymro oedd: awen, haelionni, a llawenydd. Onid Cymro yw un o *humorists* pennaf Prydain heddyw; neb llai na Mr. Spencer Leigh Hughes (Sub Rosa gynt)? Ac onid un o ddoniau disgleiriaf Mr. Lloyd George yw ei hiwmor digymar? Felly "o'r dechreuad hyd yr awr hon," yr ydym fel cenedl wedi meddiannu'r ddawn i chwerthin; byth na adawed gyrrau llawen ein hen wlad!

Gan fod llenyddiaeth yn fynegiant, mwy neu lai perffaith o fywyd cenedl, dylai llinyn aur y llonder Cymreig redeg yn ei ddisgleirdeb drwy farddas a rhyddiaith Cymru hyd yr oesau; ac felly y gwna, ond ei fod yn fain ac anamlwg iawn ar aml i dro. Mae'r un peth yn wir am lenyddiaeth Lloegr a gwledydd ereill, mae'r nwyfus a'r llon yn myned o'r golwg drwy aml gyfnod; ond fel y cyll llên hualau ffurfioldeb gor-ddifrif, daw yn raddol i ddawnsio a chwerthin llawenydd naturiol dyn. Datblygiad diweddar yw *humorous literature*, fel y cyfryw; bu raid cael Byd Newydd i dyfu Mark Twain.

Pennod "ar nadrodd yr Iwerddon" fai aml un ar hiwmor hen feirdd Cymru a Lloegr, a gwledydd ereill, o ran hynny; ond yn llên ddiweddar ein gwlad, cawn bennodau llai tylodaidd; yn wir, deuwn i ambell faes pur doreithiog mewn cymhariaeth ag ereill; ond am ychydig iawn o feysydd y medrwn ddweyd, heb drwydded bardd, eu bod

"Yn gyforiog o firi."

Nid yw'r Cymro, hyd yn hyn, wedi llwyddo i adlewyrchu holl eangder ei natur amrywiol mewn cân a llên. Ac y mae ein llenyddiaeth fechan werinol o hyd yn dioddef oddiwrth gymhariaeth a llên y Sais—y gyfoethocaf, efallai, a welodd y byd erioed. Ofer edrych am Tom Hood, a Thackeray yn Nghymru; mwy ofer fyth chwilio am Ceriantes, a Voltaire, a Molière.

Heblaw hyn, yr ydym yn graddol golli gafael ar yr hen bethau gwir Gymreig; nid ydym yn byw yn awyrgylch ein tadau; mae awelon o bell yn chwythu dros y gororau: mewn gair, yr ydym yn myned yn rhy Seisnigaidd i werthfawrogi llawer o hiwmor Cymraeg; oblegid mewn hiwmor, mae'r awyrgylch oll yn oll. Y peth diweddaf y deuwn i'w ddeall wrth ymgynefino a chenedl yw ei "ffraethineb." Trowch i'r papurau *comic* gyhoeddir ym Mharis, neu gwell (neu gwaeth!) fyth i rai Berlin! Pa nifer o honom fedr eu deall, hyd yn oed pan wedi meistroli'r ieithoedd yn bur lwyr. Cyfarfum unwaith a Chymro yn Lloegr, ac er mwyn torri'r iâ, pe angen hynny hefyd, buom mor ffol a gwneud *pun* neu ddau. Syrthiodd y *puns* yn ddieffaith ar enaid gwyryfol y Cymro alltud. Ni chlywsai'r un erioed, ac erbyn egluro iddo "ddigrifwch" ein geiriau mwys, yr oedd y cyfan wedi mynd fel bywyd creadur wrth ei dynnu'n ddarnau. Na, ni chlywsai y Cymro erioed o'r blaen y fath beth a *pun*. A gwyn ei fyd!

Cawn sylwi yn nes ymlaen ar amddifadrwydd ffodus ein llên o'r *pun*; nid yw'r eithriadau sydd gennym ond yn cadarnhau'r rheol; a gwelwn fod y chware ar eiriau yn ein hiaith yn cymeryd y ffurf o gynghanedd.

Ac wrth feirniadu hwnnw, rhaid o hyd yw cofio mai peth gwerinol, syml ac arwynebol ydyw ffraethineb gwir Gymreig; rhaid gosod ein hunain yn y wlad gyda'r bobl unieithog a chyntefig, ac anghofio awyrgylch y Sais a *cleverness* ysgolheigaidd llawer o'i lenyddiaeth; anghofiwn driciau a chastiau G. K. Chesterton a Bernard Shaw; a chofiwn mai sefyll a cherdded ar eu pennau er mwyn edmygedd y dorf, ac er mwyn bywiolaeth (gweddol fras hefyd!) y mae ysgrifenwyr o'u bath. *Intellectual acrobats* ydynt, dyna'i gyd. Anghofiwn hwynt yn yr ymdriniaeth a ganlyn.

(I'w barhau.)

O FAES Y FRWYDR.

IV.

Yr oedd y mwyafrif o'r bechgyn gwrddasom yn ymarfer beunydd lawer o rinweddau y ddeddf Gristionogol; ond ychydig ohonynt oedd yn eu cysylltu âg enw Iesu Grist.

Yn y Fyddin y mae gan bob milwr ei *chum*—ei gyfaill neilduol. Mae y *spirit of comradeship* yn gryf iawn cyd-rhwng y bechgyn oll; ond y mae'r hyn olyga y gair *chum* i'r milwr yn gwreiddio'n ddyfnach fyth yn ei galon na'r yspryd rhagorol yma.

Mae y milwr yn byw beunydd i'w gyfaill, ac y mae ugeiniau ohonynt wedi marw *dros gyfeillion*. Ac onid byw i arall ydyw ystyr "byw i Grist" wedi'r cyfan? Ac meddai'r Athraw Mawr ei hunan:—"Cariad mwy na hwn nid oes gan neb, sef bod un i roi ei einioes dros ei gyfeillion." Byw i arall, byw i bawb, marw *dros* bawb—dyna swm a sylwedd Ystori'r Groes.

Fel y dywedasom ar y dechreu, nid yw'r bechgyn efallai wedi breuddwydio erioed am gysylltu y rhinweddau amlwg hyn â Christ a'i grefydd. Ond eto eiddo Crist ydynt. Os nad ydyw'r Eglwys sydd

yn dwyn enw Crist yn barod i gydnabod hyn, pwy feiddia ddweyd nad yw Efe ei hunan yn eu harddel?

Yr oedd llawer ohonynt yn teimlo yn elyniaethus tuag at y sefydliadau a elwir gennym ni yn Eglwysi Cristionogol. Ni fynnent er dim gysylltu eu henwau â hwynt. Oes eisiau ail-adrodd paham wrth ddarllenwyr llygadgraff YR YMOFYNYDD?

Trwsgl a fflamgoch oedd yr iaith oedd ar wefusau rhai o'r bechgyn yma, ond, er hynny, yr oedd y galon yn y fynwes yn bur a glan.

Os oedd eu geiriau'n gryf ar ambell adeg, yr oedd eu calonnau yn dyner ac yn iach—heb eu llychwino gan lawer o arferion ffol plant dynion.

Os oedd y tafod dipyn yn fflipant ar brydiau, 'doedd hi ddim yn "gwenieithio." Os oedd yr ymddiddan dipyn yn arw ar droion, 'doedd dim un fron yn "meithrin brad."

Ac y mae Emrys, rwy'n meddwl, yn dweyd, mai brodyr a'u hwynebau "tua'r Wlad" ydyw y rhai

"Heb un tafod yn gwenieithio,
Heb un fron yn meithrin brad."

Mae lle i ofni fod iaith crefyddwyr heddyw yn rhy lân, eu brawddegau yn rhy gelfyddydol ger bron Gorsedd Gras. Onid ydyw yn bosibl ein bod yn fwy o ramadegwyr nag o wir grefyddwyr? Mae iaith crefydd yn ein gwlad yn berffaith ddigon heddyw, ond beth am galon crefydd, beth am enaid crefydd bur? Mae'n bosibl y gall dyn fod yn feistr ar y gelfyddyd o blethu wrth eu gilydd y geiriau Duw, Crist, y Groes, ac eto fyw mor bell oddiwrthynt ag ydyw Pegwn y Gogledd oddiwrth Begwn y Dê. Y mae yn well meddu ar brofiad heb eiriau, na meddu ar eiriau godidog heb brofiad. Byddwn ar ein gwyliadwriaeth rhag i'n crefydd fod yn rhy lân, a chelfyddydol, a gramadegol, a'n calonnau wedi eu llygru a'u mwydo yn llwch a llaid y byd. Faint o wir werth "gerbron Duw a'r Tad" sydd mewn bod yn weddiwr mawr a medrus, os yw'r galon yn pydru beunydd mewn diglonedd a chas? Faint o rinwedd sydd mewn bod yn bregethwr hyawdl a melys, os yw'r enaid wedi ei lyncu i fyny gan hunanoldeb a bydolrwydd? Faint o werth sydd mewn cael ein hunain ar enw Crist, os mai'r "Byd, y Cnawd, a'r Diafol" sydd yn hawlio pethau gore ein bywyd? Golygfa ryfedd oedd gwel'd ein bechgyn annwyl yn dyfod yn ol o'r ffosydd ambell dro—yn llwch ac yn llaid o'r pen i'r traed. Prin y buasai dyn yn adnabod ei hên gyfeillion y pryd hwnnw.

Gofalwn nad yw gwisgoedd ein crefydd yn rhy lân. Hoffem weled peth o olion brwydrau ac ystormydd arnynt. Mae yn well cael llai o gelfyddyd yn y Bregeth, os yw celfyddyd yn lladd yr enaid ddylasai fod ynddi. Mae'n well aberthu cywirdeb yng nghân y côr nag aberthu calon ac yspryd.

. . . . . .

Y bregeth odidocaf ydyw yr un na fedrodd geiriau ei phregethu. Y gân felysaf ydyw'r un na fedrwyd ei mhynegu mewn seiniau. Yr oedd llawer o'r bechgyn yn fwy crefyddol nag yr oeddent wedi meddwl erioed; yn agosach at Grist nag yr oeddent yn tybio.

Y ddamnedigaeth yw ein bod yn meddwl ein bod yn agos iawn at Grist, pan mewn gwirionedd ein bod ymhell oddiwrtho—camsynied y tywyllwch am y goleuni.

. . . . . .

Y bregeth fwyaf effeithiol yn Ffrainc oedd y bregeth bregethid mewn bywyd. Yr oedd y pregethau ereill i gyd yn myned i fewn trwy un glust ac allan trwy'r llall.

"Llewyrched felly eich goleuni ger bron dynion, fel y gwelont eich gweithredoedd da chwi"—dyna'r unig grefydd y rhoddid coel wirioneddol arni yno.

'Doedd yno ddim llawer o sôn am

bethau mawrion crefydd wrth eu henwau priodol, neu arferol. Eto, ffydd, cariad, tosturi, ond wrth enwau ereill, oedd seiliau gwir fywyd llawer o'r bechgyn yma.

Ni wyddent ond y nesaf peth i ddim lawer pryd am *phraseology* crefydd, ond, er hynny, yr oedd anhebgorion gwir grefydd, os mewn gwisgoedd dieithr, yn amlwg iawn. Gelwid yr "hen wlad" ganddynt—y "wlad wen" lle yr oedd yr hen gartref annwyl — yn "Blighty." "Blighty" gair rhyfedd iawn i'n clustiau ni, ond pan y disgynnai oddiar wefusau y milwr yn y ffosydd, yr oedd yna adgofion pêr yn dyfod yn ol i bawb o'r milwyr ereill oddiamgylch iddo. "Take me back to dear old Blighty," oedd un o'u caneuon hoffusaf. Yno yr oedd yr hen gartref, yr hen ardal, a'r hen gyfeillion. Melys a phrudd oedd yr adgofion ddygasai y gair iddynt.

"Is it a 'Blighty' case, doctor," meddai'r bachgen clwyfedig yn y *dressing station*. "Yes," meddai hwnnw mewn atebiad, "you've got a lovely 'Blighty'." Ac o'r fath lawenydd wed'yn! Wedi ei glwyfo yn ddigon truenus i groesi'r Sianel yn ol i'r hen wlad—dyna lwc, a braint, a bendith. 'Doedd dim gwahaniaeth os y buasai rhaid gadael hanner yr hen gorph ar ol, ond cael un olwg eto ar "Blighty."

Yr oedd ganddynt, felly, iaith newydd, ond iaith ddrud profiad oedd. Yr oedd pob gair yn llwythog o brofiad.

Beth am eiriau, am iaith gynefin, ein crefydd ni heddyw? A ellir dweyd eu bod yn llwythog o brofiad ysprydol, ynte iaith wag ydyw—efyddau'n seinio, a symbalau'n tinc-ian. A raid i ni feio'r bechgyn hyn am nad ydynt yn parablu eu profiad-au yn ein "shibolethau" ni? Gwyn fyd na wnaethent hyn ar un ystyr, oblegid buasai yna brofiad a bywyd ynddynt wed'yn, beth bynnag.

Peidiwn bloeddio gormod o'n *pet phrases*, a'n geiriau ffansiol, mewn crefydd, ar hyd a lled y wlad yma, fel pe tae yna fyd o bwysigrwydd yn perthyn iddynt, rhag ofn i rywun ddrachtiodd yn helaethach na nyni o Gwpan Bywyd droi yn gablwr Duw a'i Nef o'u plegid. Mae pethau felly yn sicr o fagu rhegfeydd ar wefusau'r dyfodol.

. . . . . .

Wedi byw cyhyd yn swn y drin, gallesid meddwl y byddai i deimlad-au a serchiadau'r bechgyn gael eu llygru a'u lladd—ond rhyfedd mor lân a llednais oedd eu hysprydoedd. Gwelsom hwynt yn dod yn ol o lawer ysgarmes waedlyd, a'u heneid-iau heb gas na ddigllonedd ynddynt. Mae gyda ni ddynion mewn awdur-dod yn y wlad yma heddyw yn canu eu *Hymns of Hate*, yn ceisio meithrin casineb a dicter yng nghalonau plant dynion, ond diolch i Dduw fod bechgyn Prydain Fawr yn ymladd ar y Cyfandir heddyw a'u hysprydoedd yn bur, a'u calon-nau yn lân, oddiwrth y pethau dieflig hyn.

Faint o werth sydd mewn cael buddugoliaeth ar Germani, os oes rhaid meithrin a magu cenhedlaeth o ddiawlgwn i wneud hynny? Fe fydd Prydain Fawr wedi mynd yn dân uffern cyn y gellir gwneud hyn a'u bechgyn ardderchog.

Wlad y Breintiau Mawr! Araf-a'th gamrau! Oni weli di rywbeth yng nghân y bardd :—

"Brydain, fy ngwlad, a'th glod ar y moroedd,
P'le mae dy rwyfwyr am fyned â thi?
Demti di'r gwynt, a pheryglon y dyfroedd,
Heb un anrhydedd, arglwyddes y lli?
Cofia i Shakespeare addurno dy hanes,
Cofia i Milton sancteiddio dy glod;
Cyn it' fordwyo dy enw â gormes,
Cofia'r hyn fuost, a'r hyn elli fod."

"Ydyw yr aur yn well nag uniondeb?
Beth, ar fys gwarth, fydd disgleir-deb y gem?

Gredu di mwy mai peth ffol yw tiriondeb?
Fel arall y'th ddysgwyd wrth gryd Bethlehem.
Arafa dy rwyfwyr, arglwyddes y glasfor!
Caed Llywydd Gennesareth ofal y llyw;
Rhuddwawr yw'r ewyn o'th ol yn dygyfor—
Gwaed dy elynion neu'th feibion di yw?

Elfed.

Nid cyfaill i ti sy'n dy chwerwi i ddial,
Ond dyn werthai fendith y ganrif am awr.
'Nol llosgi cartrefi a throi gwlad yn anial,
Cofia'n dy lid, bydd dy gyfri' yn fawr!
Bydd raid rhoi aur Duw yn iawn am dân Cesar—
Arafa dy rwyfwyr, arglwyddes y lli!
Mae eto i gymod ei le ar y ddaear!
Rhaid lleddfu dy ddig neu warthruddo dy fri.

(*I'w barhau.*)

D. Cellan Evans.

HANNER CAN' PWYNT DROS UNDODIAETH.

48.—Crefyddau Ereill.

Cred Undodiaid fod Duw wedi ysprydoli seintiau a phroffwydi crefyddau heblaw Cristionogaeth, yn enwedig athrawon crefyddol y Dwyrain. Cynwys ysgrifeniadau santaidd crefyddau ang-Nghristionogol yn India a'r Aifft, Persia ac Arabia, China a Japan, feddyliau a theimladau a gyfoethoga grefydd gyffredin y dyfodol.

Tystion i'r Dwyfol.—Ni adawodd Duw erioed mohono'i hun yn ddi-dyst. Ni cheir dim yn fwy gwir yn y Beibl na'r geiriau a geir yn Actau x. 34, 35: 'Yr ydwyf yn deall mewn gwirionedd nad ydyw Duw dderbyniwr wyneb; ond ymhob cenedl y neb sydd yn ei ofni ef ac yn gweithredu cyfiawnder sydd gymeradwy ganddo.'

Gwerth Crefyddau Ereill.—Pan gaffo Undodiaid afael ar wirionedd a geir yn y Beibl mewn llyfrau crefyddau ereill, llawenychant, a chadarnheir hwy yn yr argyhoeddiad ei fod o ddechreuad dwyfol. Wrth anfon Cenhadon i diroedd estron, yr hen syniad oedd fod Cristionogaeth yn grefydd gyflawn o ysprydoliaeth oruwchnaturiol a wrthodir gan y 'barbariaid' ar berigl o ddamnedigaeth dragwyddol. Y syniad mwy cywir yw fod Cristionogaeth fel hedyn, yn alluog i dyfu, ac y mae i'w blannu yng nghalonnau pobl o wahanol genhedloedd yn y ffydd ac yn y gobaith y cymhlethir beth bynnag fyddo wir a da ynddo a'r elfennau uchaf ac ardderchocaf yn y grefydd a broffesant yr awron. Dywedodd Max Müller, a wnaeth gymaint i wneuthur crefyddau mawr y byd yn fwy hysbys: 'Nid oes grefydd—ond os yr oes, ni wn am dani—na ddwed "Gwna dda, gochel ddrwg." Nid oes un na chynwys y rhybudd syml, a alwai y Rabbi Hillel yn sylwedd pob crefydd, "Bydd dda, fy machgen." Holwyddoreg fer iawn yw "Bydd dda, fy machgen," ond gadawer i ni ychwanegu ati, "Bydd

dda, fy machgen, er mwyn Duw," ac y mae gennym bron yr oll o'r Gyfraith a'r proffwydi.'

49.—Crefydd Ymarferol.

Pwysleisia Undodiaid grefydd ymarferol. Oherwydd pregethu ohonynt Iachawdwriath drwy gymeriad, cyhuddir hwy yn aml o chwyddo pwysigrwydd gweithredoedd da. O ystyried nifer y dilynwyr proffesedig, ceir eu bod wedi llanw ac yn llanw lle blaenllaw mewn gwasanaeth cyhoeddus ac mewn cynlluniau er lles cymdeithas.

GWASANAETH CYMDEITHASOL.—Nid rhan fechan fu gwasanaeth cymdeithasol yng nghrefydd Undodaidd, ac wrth geisio hyrwyddo lles y cyhoedd, gweithredasant oddiar y gred mai marw yw ffydd ar wahan i weithredoedd. Nid diddordeb neu fudd ydoedd mo crefydd iddynt: pe bai hyn fyddai, ni allasai fod yr ysprydoliaeth ydyw yn ein bywyd beunyddiol, na'r cysur ydyw yn ddibetrus yn nyddiau tristwch a galar.

GWERTH YMARFEROL UNDODIAETH.—Cymerwch y gred arbennig fod Duw yn Dad pob un, a'i fod wedi cynysgaeddu ei blant â phosibiliadau dwyfol. Y mae llawer plentyn wedi arwain bywyd uniawn oherwydd iddo ei ystyried yn ddyledswydd arno i fyw i fyny â thraddodiadau anrhydeddus ei deulu. Ba ddiwygiad wedi'n raid ddilyn pan gredo dynion mewn gwirionedd eu bod hwy eu hunain yn ddwyfol wrth natur, fod teyrnas Dduw o'u mewn, a'u bod hwythau wedi'u cynysgaeddu'n fewnol â nerth uwchlaw pob drwg a ddichon eu cyfarfod ar daith bywyd. Gweithreda pobl yn isel oherwydd mai syniad isel sydd ganddynt am danynt eu hunain. Ymhellach, mor ardderchog y buasent mewn gweithrediad at eu gilydd pe derbyniasent yr addysg fore fod pob dyn yn blentyn i Dduw, ac y dylid ei ystyried fel bod dwyfol. Rhoer cynnyg i'r athrawiaeth neu'r ddysgeidiaeth hon, a chanfuasai pobl mewn gweithrediad y nerth moesol fwyaf a welodd y byd erioed.

HEDDWCH.—Gweithiodd yr Undodiaid yn selog dros heddwch. Safant tros gyflafareddiad (*arbitration*) ymhob anghydwelediad rhyngwladwriaethol. Nid oes gydymdeimlad ganddynt at y golygiad 'mai'r ffordd oreu i gadw heddwch yw paratoi gogyfer a rhyfel.' Dywedai Dr. Channing nad oedd angen yspryd-rhyfel i gynneu penderfyniadau arwrol. Nid oes berthynas rhwng anian heddychlawn a chymeriad dof a gwanaidd. Ceir cyfle ddigon i ymarfer anturiaeth, dewrder a mawrfrydigrwydd, trwy fendithio dynoliaeth. Yn ddoeth y sylwodd y Brenin Edward VII: 'Ni fedr gwladweinwyr a theyrnaswyr osod nod uwch o'u blaen na thrwy hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth da a chymdeithas galonnog rhwng cenhedloedd y byd. Dyma'r ffordd sicraf a'r unionaf y medr dynoliaeth sylweddoli ei delfrydau ardderchocaf.'

DIRWEST.—Fel mewn enwadau ereill, y mae gweithwyr diflin dros achos dirwest ymhlith Undodiaid. Unir Gobeithluoedd a chymdeithasau ereill o tan Undeb Ddirwestol Genedlaethol Undodaidd. 'Mewn cymdeithas Gristionogol,' meddai Dr. Channing, 'ni ddylesid gadael un i syrthio, heb gyngor, gwrthdystiad, cydymdeimlad, a chefnogaeth ereill mwy goleuedig a rhinweddol nag ef ei hun.'

CYFRIFOLDEB CYMDEITHASOL.—Er hyrwyddo lles cymdeithasol, caniateir Undodiaid yn awr yn llawen i gydweithio a dynion o ffydd arall. Tra maentumia Undodiaid gyfrifoldeb moesol yr unigolyn, addefant fod rhaid i gymdeithas fel cyfangorff ddwyn y gwarth am lawer anghyfiawnder. Daliant y dylesid ffurfio bywyd yr unigolyn o ystyriaeth am fywyd mwy dynoliaeth, ac ei bod yn ddyledswydd ar bob dyn i ofyn iddo ei hunan a ystyriai gwrs ei weithredoedd a modd ei fyw, *pe gwelsai mewn arall*, yn llesol i gymdeithas?

Y Lles Cyffredin. — Cytuna Undodiaid a'r Athro Syr Henry Jones 'Nad oes yna un arwydd sicrach o bersonoliaeth gyfyngedig a llymrig nag anystyriaeth o'r lles cyffredin – o'r hwn y mae'r Wladwriaeth boliticaidd gyda'i sefydliadau yn gynrychiolydd. Edlych ysprydol yw'r dyn nad yw ei ddinas yn ei galon. Mesur dynoliaeth yw llawnder ac haelioni ei buddiannau (*interests*). Po ddwyfolaf fo dyn, lletach yw'r byd dros yr hyn y mae'n byw a marw.' 'Lle bynnag y mae hunan-fudd digymysg,' meddai Dr. Stopford Brooke, 'y mae anghyfiawnder; lle bynnag y mae rhoi-hunan, yno y mae cyfiawnder.' Yn ddiamwys golygai Iesu wrth deyrnas Dduw berthynas well a mwy cyfiawn rhwng dynion. Iddo ef cariad a brawdoldeb oedd crefydd; a dadl unrhyw gorff o ddynion crefyddol a hawlia gymdeithas ag ef fyddo tros gynnydd a llwydd cymdeithas.

(*Y Diwedd.*)

MARWGOFION.

Tachwedd 9, 1917, ar faes y frwydr yn Ffrainc, Preifat Stanley Hancock, gynt o Glaslwyn, wedi hyny o Glandwr, Pontshan, Llandyssul, yn 23 oed. Ganwyd Stanley yn Taunton, a chan fod amgylchiadau y teulu yn dlawd gwelodd lawer o dywydd garw ar ddechreu ei yrfa. Collodd ei fam pan oddeutu dwy flwydd oed, ac mor druenus oedd yr amgylchiadau fel y cymerwyd y plant i gyd, oddigerth yr ieuengaf, i ysgol plant tlodion—St. Saviour's Home—y dref. Tachwedd 9, 1908, pan yn 14 oed, daeth i Glaslwyn, Pontshan, ar wasanaeth, ac yn y man enillodd serch pawb ddaeth i gyffyrddiad ag ef. Ar ol bod yno dair blynedd symudodd i Glandwr, lle y treuliodd bedair blynedd, a "Stanley, Glandwr" fu byth wedi hyny. Ionawr 29, 1917, ymunodd a'r fyddin, ac wedi rhyw bedwar mis o *training* cafodd ei ddanfon i Ffrainc, ac yno y bu hyd nes collodd ei fywyd. Bachgen arderchog iawn oedd Stanley; un o'r bechgyn goreu allesid byth gwrdd. Yr oedd yn lân a hardd yn mhobpeth: glân ei wisg, ei iaith a'i gymeriad. Tra yn Glandwr yr oedd mor ffyddlon a neb yn Bwlchyfadfa, ac ymhyfrydai bob amser yn y ffaith ei fod yn aelod yno. Yn ei lythyron o Ffrainc soniai beunydd am y Bwlch a phobl y Bwlch. Rhaid eu bod yn agos at ei galon. Hyd y gwyddom ychydig o berthynasau sydd i wylo ar ei ol ond mae yna nifer luosog o gyfeillion iddo yn ardal Pontshan a'r cylch yn teimlo'n hiraethlon wrth feddwl na chânt ei gwmni yma mwy. Sul, Ionawr 6, cynhaliwyd gwasanaeth coffadwriaethol iddo yn Bwlchyfadfa. Da oedd genym weled llond capel o gynulleidfa ar yr achlysur. Pobl wedi dod o bob cyfeiriad i dalu gwarogaeth i goffadwriaeth bachgen o gymeriad da. Pregethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins, oddiar y geiriau, "Da, was da a ffyddlawn." Ar ddiwedd y gwasanaeth chwareuwyd y "*Dead March*" gan Miss Ellen Thomas, Green Grove.

Rhagfyr 24, ar ol cystudd byr, James Davies, Penlon Esger, gynt o Cwmysgydwydd, Pontshan, yn 81 oed. Gadawodd mewn galar briod oedranus, tri o blant, wŷrion a pherthynasau ereill. Dyn distaw a heddychlawn oedd James Davies, a

gweithiwr diwyd a didwyll, ac am flynyddoedd meithion rhoddodd wasanaeth da i'w ardal fel masiwn. Yr oedd yn aelod yn Bwlchyfadfa, a chyn i'r cam fyrhau yr oedd yn bur ffyddlon yn y gwasanaeth. Claddwyd yr Iau canlynol yn Bwlchyfadfa, a gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins. "Mi a orphenais fy ngyrfa."

RHAGFYR 29, yn 75 oed, Joseph Hawkins, yn nhŷ ei ferch a'i gwr, Mr. a Mrs. Prosser Thomas, Heolygraig, Trebanos. Cyrhaeddodd ein hanwyl dad oedran addfetach na'r cyffredin. Mwynhaodd iechyd da drwy ei oes; ond nychodd lawer yn ystod blynyddoedd olaf ei fywyd. Glowr a fu efe bron yr oll o'i amser – elai, a deuai wrth oleuni gwanaidd ei lusern fach – ei ffrynd a'i gyfarwyddyd hoff yn y gwyll. Mae gan y cristion ei "oleuni mwyn" yn nhaith yr anial, a phan ymedy efe a'r llewyrch hawddgar bydd fel yr hwn a rodio heb yn wybod i ba le. Claddwyd y Mercher dilynol wrth Eglwys Cilybebyll, a gweinyddodd yr offeiriad. Codwyd yr angladd gan y Parch. D. G. Rees.

Dyddanwch diwedd unoes—a glywch
Glychau hedd ein hailoes? [chwi
Heneiddio i newydd oes,
Ydyw rhaniad yr einioes.—*Banos.*

IONAWR 4, yng Nghaerfyrddin, bu farw Gwenllian Jones, merch y diweddar Griffith a Margaret Jones, Frowen, Pencarreg, yn 73 oed. Gwannaidd fu o ran iechyd ei'n blynyddau; ac yn ystod ei chystudd olaf, gweiniwyd arni yn dyner, yn eu tro, gan ei chefnder yn y Castell, a chan ei chwiorydd yn Tower Hill a Phantnewydd. Ychydig fisoedd cyn ei marwolaeth bu raid ei symud i Nodd-dy Caerfyrddin, lle y bu farw. Gadawodd bedair chwaer, un brawd, a lliaws o berthynasau agos, mewn galar ar ei hol. Yr oedd yn aelod yng Nghapelygroes er yn ieuanc iawn, a chadwodd ei haelodaeth i fyny hyd y diwedd. Perthynai i deuluoedd—teuluoedd Frowen, Castell, a'r Banc- fuont, er ei gychwyniad yn noddwyr gwresog o'r achos yn y lle. Y mae amgylchiadau wedi symud llawer o honynt tuallan i gyfleustra i gadw i fyny eu cysylltiad ag ef; ac y mae marwolaeth wedi symud llawer ereill; fel, erbyn hyn, nad oes yn aros ond teuluoedd y Castell a Thower Hill. Hir y parhao eu cysylltiad hwy a'r achos. Dygwyd gweddillion yr ymadawedig y dydd Iau canlynol i'w gosod yn ymyl eiddo ei pherthynasau yng nghladdfa Capelygroes, pryd y daeth nifer luosog o'r perthynasau yng nghyd i dalu iddi y gymwynas olaf. Pregethwyd gan y Parch. D. Evans, gweinidog y lle; a gweddiwyd ar lan y bedd gan y Parch. Oswald Williams, B.A., Llanbedr.

IONAWR 10, yn ddisymwth hollol, Margaret Thomas, Ffinant Arms, Alltyblacca, yn 68 mlwydd oed. Cafodd yr ymadawedig ei tharaw y boreu uchod, yn sydyn, ac mor ddrwg fel y bu farw yn mhen ychydig amser. Treuliodd ei hoes yn ddiwyd a llafurus; er hynny, nid oedd yn fydol a hunangar, eithr meddai ar ewyllys dda tuag at bawb, a pharodrwydd i wneyd pob cymwynas ag oedd yn ei gallu. Yr oedd daioni yn beth mor naturiol iddi fel y cyflawnai weithredoedd da yn ddistaw a didwrw, ac heb ofalu fod y byd yn ei gweled; a diau y teimla llawer wagder a cholled ar ei hol. Nid oedd dim yn guddiedig ynddi, ond yr oedd mor onest ac unplyg fel yr oedd gan bawb ymddiried ynddi a pharch mawr iddi. Er nad oedd yn mynychu y gwasanaeth yn gyson yn Alltyblacca, eto nid oedd neb yn fwy selog dros yr achos na hi. Yr oedd ei thŷ yn agored i'r rhai a ddeuai o bell i'r gwasanaeth, a lluniaeth iddynt cyn dychwelyd. Claddwyd y Mawrth canlynol yn mynwent Alltyblacca, a daeth tyrfa luosog yng nghyd o barch i'w choffadwriaeth ac o gydymdeimlad a'i hunig ferch. Pregethwyd gan y Parch. L. Williams, a chynorthwywyd gan y Parchn. J. Davies, Tancoed, a D. Evans, Cribyn. Gadawodd un ferch a mab-yn-nghyf-

raith, dwy chwaer ac un brawd mewn galar mawr ar ei hol. Nodded y nef fyddo dros ei mherch a'i phriod, a thros yr oll o'r perthynasau.

Ionawr 11, ar ol cystudd hir a chaled, Elizabeth, anwyl briod John Jones, Troedybryn, ger Bwlchyfadfa, yn 50 oed. Gadawodd briod, wyth o blant, mam (Nanny, Pantbach, gynt), brawd, chwaer, a nifer luosog o berthynasau ereill a chyfeillion i alaru ei cholli. Mae dau o'i bechgyn yn gwneud eu rhan ar faes y frwydr yn Ffrainc. Benyw weithiodd yn galed iawn oedd Mrs. Jones—un nad oedd ofn gwaith arni. Profodd ei hun yn gydmar egniol ac yn fam lafurus a charedig. Rhaid fod yr aelwyd yn wag hebddi. Hyderwn y câ y priod a'r plant bob nerth angenrheidiol i gadw yr aelwyd yn aelwyd glyd, a'r cartref yn gartref cysurus er ei bod hi wedi mynd. Benyw siriol a hawddgar iawn ydoedd, un a gwên ar ei hwyneb bob amser a sirioldeb lond ei chalon. Yn gynar yr haf diweddaf dechreuodd ddioddef oddiwrth ryw anhwyldeb tufewn; aeth hwnw o ddrwg i waeth, ac yn mis Hydref bu dan driniaeth law-feddygol yn Ysbytty Abertawe. Ymdrechodd ymdrech deg i gael byw, ond wele hi wedi mynd wedi'r cwbl a'n gadael ni. Claddwyd y Mawrth canlynol yn Bwlchyfadfa, lle yr oedd yn aelod ffyddlon. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins.

Ionawr 15, gorffennodd ein cyfaill siriol Thomas Dawkin Williams ei yrfa ddaearol yn ei dŷ ei hun, Bryngwyn, Cemetery Road, Aberdar, yn mhresenoldeb ei fab a'i unig ferch, yr hon oedd wedi gweini yn ffyddlon arno drwy ystod blynyddau ei henaint. Cafodd yr ymadawedig iechyd da drwy ei oes, a chafodd y fraint o weld diwedd ei 85 mlwydd, y Sul blaenorol, deudydd cyn y diwedd, yn y meddiant o'i holl synwyrau. Yr oedd Mr. Williams, ar lawer ystyr, yn un o hynod ddynion ei ardal. Tynai ei ymddangosiad urddasol a'i bresenoldeb siriol sylw hyd yn oed y dyn dieithr. Meddai ar gof ardderchog a sylw manwl, fel y gwyddai fwy am hanes ei ardal a'i thrigolion na neb arall. Yr oedd yn gerddor medrus a chanddo lais *bass* na chwrddid yn gyffredin a'i gyffelyb. Colled fawr oedd ei weld yn cefnu ar yr Ysgol Gân a'r *Band of Hope*, &c., lle'r oedd wedi bod am hir amser o wasanaeth mawr. Ffarwel, gyfaill. Ni gawn gwrdd eto yn y man.

Ionawr 8, yn 87 mlwydd oed, Jenkin Jones, Penpwll, Llandyssul. Gwelodd yr ymadawedig ddyddiau lawer ar y ddaear, ac hyd ond ychydig amser cyn y diwedd cerddai yn ysgafndroed ac heinyf ddigon, er pwysau y blynyddoedd. Gwehydd ydoedd wrth ei alwedigaeth, a bu'n wr diwyd, craffus ei feddwl, a chanddo ystor o wybodaeth am ddigwyddiadau lleol ac am bersonnau 'ys lawer dydd.' Hoffai'n fawr adrodd helyntion y dyddiau fu, ac ar gyfrif hyn yr oedd ei gymdeithas bob amser yn ddyddorol ac adeiladol. Hyd y gallodd cyrchodd yn rheolaidd i Gapel y Graig, ac annogai, drwy ei esiampl a'i air, eraill i wneud yr un peth. Y dydd Sadwrn dilynol hebryngwyd yr hyn oedd farwol o honno i fynwent Pantydefaid, pryd y gwasanaethodd y Gweinidog ar yr achlysur. Gadawodd mewn galar o'i golli, un ferch, yr hon fu'n ofalus ohonno ar hyd y blynyddoedd, dau fab, ac wyrion. Da was, da a ffyddlawn.

Ionawr 20, yn 68 mlwydd oed, Mrs. Elizabeth Lloyd, gweddw y diweddar Mr. Samuel Lloyd, Plasnewydd, Gorrig, Llandyssul, gynt o Blaenwaun, Llanfihangel-ar-Arth. Claddwyd y dydd Mercher dilynol yn mynwent Eglwys Tregroes; y Parch. T. Arthur Thomas yn gwasanaethu yn y ty, a'r ficer, y Parch. T. Madoc Jones yn yr Eglwys a'r fynwent.

MANION AC HANESION.

LLANBEDR. — Bydd yn dda gan liaws o gyfeillion y ddwy chwaer ieuanc, Myfanwy Davies, Pantycelyn, ac Elizabeth Anne Thomas, ill dwy o Lanbedr, glywed am eu llwyddiant yn pasio arholiad y 'Trinity College of Music' gydag anrhydedd, yn Llanelli, ychydig amser yn ol. Yr oedd y ddwy yn ddisgyblion i Miss Polly Davies, Cararra, Llanbedr, ac y mae clod yn ddyledus i'r athrawes ar eu llwyddiant a hwythau mor ieuanc. Na fydded iddynt orffwys ar eu rhwyfau, a gobeithio y cant eu hathrawes yn ol atynt ar fyr dro.

Y GRAIG A GELLIONEN.—Cynhaliodd yr eglwys uchod ei chyfarfodydd pregethu yng Nghapel y Graig, bore, nawn, a nos Sul, a nos Lun, Tachwedd 25ain a'r 26ain. Y pregethwyr oeddynt y Parchn. T. Oswald Williams, B.A., Llanbedr, ac E. R. Dennis, Aberdar. A dweyd y lleiaf, bernid na chawd gwell, os cystal, cyfres o bregethau er ys llawer blwyddyn. Cyfaddasder y pregethau i'r cyfnod oedd eu gogoniant. Gwrandawsom lawer ar bregethu yn y goiffenol heb nemor ddim i'n gogleisio, nac i agor ond ychydig ar ein meddwl, heb son am ein calon; ond dyma lefarwyr hyawdl yn llwyddo i yru y neges gartref. Ar ol hyn, hyderwn y gwnawn oll gofio mai 'drwg yw drwg,' yn ol E.R.D., a'r ffordd iawn, yn ol T.O.W., i garu Duw, ydyw 'caru dyn yn gyntaf; Duw, cariad yw.' A dyna gadernid na syflir mo hono byth. Gwnawd casgliadau boddhaol i gwrdd â threuliau perthynol i'r achos.—Yn y Graig, nos Nadolig, dan arweiniad y Parch. D. G. Rees, cynhaliwyd cyfarfod adloniadol a'i lonaid o amrywiaeth. Cawd cynulliad da, hwylusdod campus, a mwynhad di-ail. Rhoddodd yr hen dad parchus, Henry Morgan, i ni o gyfoethogrwydd ei awen drwy ei anerchiad blasus a thymorol. Y cyfeiliant gan y cyfaill hawddgar, Mr. J. Emlyn Morgan.—Bore a nos Sul, Ionawr 6, yn y Graig, cynhaliwyd cyrddau i weddio am 'fuddugoliaeth' a heddwch. Un peth y sydd o bwys i werin Ewrop,—cael heddwch i ddechreu, a hwnw wedi ei gadarnhau gan neb ond y werin, ac fe ddilyna y fuddugoliaeth.—Yn Nghapel Gosen, nosau Mawrth, Mercher, ac Iau, Ionawr 8, 9, a 10, cynhaliodd y Graig, Gosen, ac Eglwys Loegr, Trebanos, gyfres o gyrddau undebol, gobeithiwn, gyda'r amcan o ledaenu brawdgarwch ac undeb crefyddol. Pregethwyd gan y Parchn. D. G. Rees, D. Davies, a D. G. Richards.

LLWYNRHYDOWEN.—Nos Nadolig, cynhaliwyd cyngherdd yn yr Hen Gapel, fel arfer. Y tro hwn yr oedd y cyngherdd yn un undebol—eglwysi Carmel (A.), Llwyn, a Phantdefaid yn gyfrifol am dano. Y cadeirydd oedd Mr. David Jones, Green Park, un o ffyddloniaid Carmel; yr arweinydd, y Parch. T. A. Thomas; yr *accompanist*, Miss Sophia E. Evans, Capel Dewi, yr hon fu mor garedig a rhoi benthyg ei pherdoneg. Cafwyd noson hwylus, ac elw da—£21 4s. Cafodd yr arian eu danfon fel calenig i'r bechgyn hynny sydd yn y fyddin a'r llynges o'r eglwysi uchod ac ardal Dyffryn Clettwr, y rhai sydd yn rhifo 43.

CAPELYGROES.—Nos Sul cyntaf o'r flwyddyn, cynhaliwyd cyfarfod ynglyn â'r Ysgol Sul. Adroddodd yr Ysgol y 4ydd bennod o Farc, a holwyd gan y gweinidog. Yn ychwanegol, cawd adroddiadau gan Elizabeth Thomas, Talgrwn; May Jones, Blaenwaunisaf; Tom Arthur a Judith Anne Kent, Unity; Sophia Jones, Pantydderwen; Nancy Evans,

Pwllglas; a phedwarawd gan Elizabeth Anne a Jane Mary Davies, Hendy; Gwilym a David Jones, Forge, Llanwnen, dan arweiniad yr olaf. Mwynhawyd y cyfarfod yn fawr gan bawb.

RHYFEDDODAU GWYDDONIAETH.

Mae mwy o fymrynnau (*atoms*) mewn llond gwniadur o ddwfr nag sydd o lond gwniadurau o ddwfr yn yr Atlantic.

Mae'r bydysawd wedi bod mewn osgor (*in labour*) am gan' miliwn o flynyddau ac wedi ein cynnyrchu —ni! Yr ydym gynnyrch rhyfeddol, ac yr ydym yn ymddwyn mewn modd rhyfeddol yn y dyddiau presennol.

Po fwyaf y byddo dyn ieuanc yn tueddu at fod yn wyddonol, mwyaf i gyd y dylai gael dysgu'r clasuron a llenyddiaeth.

Holl-bresenoldeb yr anweledig yw un o ddadguddiadau mawr gwyddoniaeth.

Ni chefais i ddim addysg wyddonol fy hunan, a chredaf, wrth yr hyn glywaf am ei ganlyniadau, y buasai yn fy nhueddu yn gryf yn ei erbyn.

Mae pobpeth perthynol i fywyd llysieuaidd fel yn ymdrechu dwyn ei hunan i gymdeithas â dyn. Gosodwch frigyn yn y ddaear a daw yn brysgwydden (*shrub*). Mae'n rhyfedd fel mae bywyd yn dal gafael ar y dinystr a wneir gennym ni. Fe'u cuddir i fyny i gyd gan rosynau, chwyn, mwsogl, fel pe byddent yn disgwyl y cyfleusdra i ddyfod i fodolaeth er mwyn bod mewn cyffyrddiad a dyn a chael bod ar y blaned hon.

—Syr OLIVER LODGE, mewn araeth yn Hampstead.

GWEDDI. — Gofynnir yn fynych imi, Beth yw meddwl Undodiaid ynghylch gweddi? A ydych yn tybied y gall gweddi newid trefnau Duw, atal ei ddeddfau, neu sicrhau unrhyw ddaioni allanol? Na, nid wyf yn meddwl fod Undodiaid yn gyffredin yn coleddu syniad o'r fath. Mae'r fath beth a gweddio am wlaw neu am dywydd teg bron wedi diflannu o'n plith. Mae'r teimlad o drefn sefydlog deddfau Duw, ac o'r ffaith eu bod yn beth bendigedig a daionus iddynt barhau mor sefydlog ac anghyfnewidiol wedi cymeryd i ffwrdd hyd yn oed y dymuniad am y cyfryw bethau. Nid yw hynny, fodd bynnag, wedi gwneud i ffwrdd a gweddi. I'r gwrthwyneb credaf fi ei fod wedi ei dyrchafu, wedi ei gwneud yn fwy ysprydol. Cymundeb syml y galon â Duw ydyw gweddi; cais i gael cyffyrddiad â deheulaw Duw'n y tywyllwch, a chael ein dyrchafu a'n nerthu drwy hynny. Ac yn yr ymgais hwnnw yr ydym yn derbyn dylanwadau sydd yn anfeidrol mwy gwerthfawr nag unrhyw roddion allanol yn unig. —*Y Parch. Brooke Herford, D.D.*

TEYRNGED O BARCH I DR. CHANNING.—Un o'r llyfrau a ddylanwadodd fwyaf arnaf oedd un gan Undodwr - Dr. Channing, o America. Dr. Channing ddysgodd i mi gredu yn Nuw. Credai 'nhad a mam yn Nuw, a chredwn innau. Ond math o hygoeledd oedd. Pe buasent Fahometaniaid, buaswn innau yn credu yn Mahomet; neu yn Conffiwsiws pe buasent Conffiwsiaid. Nid oedd fy nghred yn un clod i mi. Ond ar ol darllen Channing, dechreuais weld beth oedd ystyr credu yn Nuw. O'r blaen yr oedd Duw yn bresenoldeb anghysurus ym mywyd un. Dysgodd Channing fi i weld fod Duw yn bresenoldeb dymunol. Peth ardderchog yw teimlo fod yna Dduw o'r fath, ac ni allaf fi byth fod yn ddigon diolchgar i Channing am yr argraffiadau cyntaf a gefais o'r hyn yw Duw.—*Proff. Henry Drummond.*

J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandyssul.

NEW SERIES OF

Modern Handbooks of Religion

Cr. 8vo. 256 pages. Two Shillings each net.

Volumes now ready.

Religion as affected by Modern Science and Philosophy. By Stanley A. Mellor, M.A., Ph.D.

Religion in Social and National Life. By H. D. Roberts.

The New Testament in the Light of Modern Knowledge. By H. Mc Lachlan, M.A., B.D.

Communion of Man with God. By R. Nicol Cross. M.A.

Jesus and Christianity in the Twentieth Century. By Alfred Hall, M.A.

The Revelation of God in Nature and Man. By Edgar Thackray, M.A., Ph.D.

The Divine Element in Art and Literature. By W. L. Schroeder, M.A.

THE LINDSEY PRESS, 5, Essex St., Strand, London, W.C.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

. . Fruit Trees, Roses and Shrubs. . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s.; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Lacrosse.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., T. B. Taylor, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss C. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

T. E. Jones & Co.,

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers - - -

& Provender Millers, - - -

Merchants, - - - -

Wholesale Grocers, &c. &c.

The London City and Midland Bank Limited.

— ESTABLISHED 1836. —

Subscribed Capital .. £22,947,804. Paid up Capital .. £4,780,792 : 10 : 0.

Reserve Fund .. £4,000,000.

LIABILITIES AND ASSETS, 31st DECEMBER, 1916.

To	£	s.	d.
Capital Paid up, viz. :—			
£2 10s. od. per Share on 1,912,317 Shares of £12 each	4,780,792	10	0
„ Reserve Fund	4,000,000	0	0
„ Dividend payable on 1st February, 1917	322,703	9	11
„ Balance of Profit and Loss Account	243,538	5	10
	9,347,034	5	9
Current, Deposit and other Accounts	174,620,724	17	9
„ Acceptances on account of Customers	7,220,780	12	2
	£191,188,539	15	8

By	£	s.	d.
Cash in hand (including Gold Coin £7,000,000) and Cash at Bank of England	47,973,686	4	4
„ Money at Call and at Short Notice and Stock Exchange Loans ...	8,844,377	19	10
„ Investments :—			
War Loans, at cost (of which £1,490,000 is lodged for Public and other Accounts)	33,399,534	13	6
Stocks Guaranteed by the British Government, &c.	326,406	10	0
British Railway Debenture and Preference Stocks, Corporation Stocks	1,924,813	0	4
Colonial and Foreign Government Stocks and Bonds	751,520	12	11
Sundry Investments	788,021	0	10
„ Bills of Exchange	23,336,817	0	9
	117,345,177	2	6
„ Advances on Current Accounts, &c....	63,868,856	17	4
„ Liabilities of Customers for Acceptances as per contra	7,220,780	12	2
„ Bank Premises, at Head Office and Branches	2,753,725	3	8
	£191,188,539	15	8